

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd

Amseru: Arferol

Teitl: Dewisiadau / Dewislen Rhwymedi Cymunedol

Categori'r Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgynghoriad cyhoeddus

Crynodeb Gweithredol:

Ymhellach i'r [Cofnod penderfyniadau Rhwymedi Cymunedol](#) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ymgynghoriad drwy:

1. Arolwg ar-lein ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a chyhoeddwyd [datganiad i'r wasg](#) a negeseuon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r arolwg.
2. Chwe digwyddiad rhwng 29 Mawrth 2023 a 26 Ebrill 2023 a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i rannu gwybodaeth â chynrychiolwyr cymunedol ar negeseuon allweddol, datblygiadau a newidiadau o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Gwahoddwyd cynghorwyr gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i fod yn bresennol yn un o'r chwe digwyddiad a drefnwyd mewn lleoliadau ar draws y pedwar Awdurdod Lleol. Dosbarthwyd yr arolwg Rhwymedi Cymunedol ym mhob un o'r digwyddiadau hyn.
3. E-byst at y canlynol:
 - Pob Cynghorydd Lleol a Chymuned ar draws y pedwar ardal Awdurdod Lleol
 - Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd
 - Gwirfoddolwyr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
 - Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr
 - Llysgenhadon y Fforwm Ieuenctid

Roedd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd wedi cynnwys taflen wybodaeth am y Rhwymedi Cymunedol.

Cafwyd cyfanswm o 131 o ymatebion i'r arolwg Rhwymedi Cymunedol, ystyriwyd canlyniadau'r arolwg a chyflwynwyd y canlyniadau a'r opsiynau/argymhellion y ddewislen Rhwymedi Cymunedol i'w hystyried yng nghyfarfod [y Bwrdd Plismona](#) ar 20 Mehefin 2023. Darparwyd y penderfyniad canlynol:

Cymeradwydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ar y cyd â'r Prif Gwnstabl, y ddewislen Rhwymedi Cymunedol, yn amodol ar gyngor cyfreithiol mewn perthynas â chynnwys cam-drin domestig.

Ymhellach i'r uchod, cyfarfu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu â chynrychiolwyr perthnasol i gael rhagor o wybodaeth am opsiynau Rhwymedi Cymunedol, penderfyniadau cymunedol a'r fframwaith gwarediadau y tu allan i'r llys. Mae'r wybodaeth bellach hon, ynghyd ag opsiynau/dewislen Rhwymedi Cymunedol wedi'i rhannu â Heddlu Dyfed-Powys i'w hystyried yn derfynol ac ni ofynnwyd am unrhyw newidiadau.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Argymhelliad:

Ymhellach i'r ystyriaethau a amlinellir yn y Crynodeb Gweithredol, cynigir bod yr Opsiynau Rhwymedi Cymunedol a ganlyn yn briodol:

Opsiynau Rhwymedi Cymunedol

Iawndal am y difrod

Rhaglenni Cymorth Camddefnyddio Sylweddau/Dibyniaeth ar Alcohol

Cyrsiau Addysgol, Dargyfeiriol a/neu Reoli Tymer

Cam-drin Domestig – Dylai swyddogion gyfeirio at Atodiad B o'r 'Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol: Cod Ymarfer Drafft' ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r Cod Ymarfer hwn, i benderfynu ar weithredu'r egwyddorion ar gyfer rhybuddion dargyfeiriol cam-drin domestig.

Cyfryngu

Ymddiheuriad llafar neu ysgrifenedig i'r dioddefwr

Llofnodi Cytundeb Ymddygiad Derbyniol (ABC)

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw fuddiant personol neu ragfarnus yn y mater hwn a gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:

Dyddiad: 12/09/23

SUMMARY DECISION SHEET

Purpose: Commissioner Decision

Timing: Routine

Title: Community Remedy Options/Menu

Category of Decision / Business Area Impact: Public Consultation

Executive Summary:

Further to the previously published [Community Remedy decision log](#) in March 2023, the Office of the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys undertook consultation via:

1. An online survey for public consultation and issued a [press release](#) and social media posts to promote the survey.
2. Six events between 29th March 2023 and 26th April 2023 hosted by the OPCC to brief community representatives on key messages, developments and changes within Dyfed-Powys Police. Councillors were invited by the Police and Crime Commissioner to attend one of the 6 events arranged in locations across all four Local Authorities. The Community Remedy survey was shared at each of these events.
3. Emails to:
 - All Local and Community Councillors across the four Local Authority areas
 - Members of Parliament and Members of the Senedd
 - OPCC Volunteers
 - Victim Engagement Forum members
 - Youth Forum Ambassadors

The OPCC also included an accompanying flyer providing information on the Community Remedy.

The Community Remedy survey received a total of 131 responses, the survey results were considered and the results and community remedy options/menu recommendation was submitted for consideration at the 20th June 2023 [Policing Board meeting](#). The following decision was provided:

The Police and Crime Commissioner in conjunction with the Chief Constable approved the Community Remedy menu, subject to legal advice in relation to the domestic abuse inclusion.

Further to the above, the OPCC met with relevant representatives to obtain further information regarding Community Remedy options, Community Resolutions and the out of court disposals framework. This further information, alongside a recommended Community Remedy options/menu has been shared with Dyfed-Powys Police for final consideration and no amendments have been requested.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Recommendation:

Further to the considerations outlined in the Executive Summary, it is proposed that the following Community Remedy Options are appropriate:

Community Remedy Options
Compensation for the damage
Substance Misuse/Alcohol Dependency Support Programmes
Educational, Diversionary and/or Anger Management Courses
Domestic Abuse - Officers should refer to Annex B of the 'Diversionary and Community Cautions, Draft Code of Practice' and any subsequent amendments of this Code of Practice, to determine the application of the principles for domestic abuse diversionary cautions.
Mediation
A verbal or written apology to the victim
Signing an Acceptable Behaviour Contract (ABC)

Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys

I confirm I have considered whether or not I have any personal or prejudicial interest in this matter and take the proposed decision in compliance with the Nolan Principles for Conduct in Public Life.

The above request has my approval.

Signature:

Date: 12/09/23